# Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2022/23

## 1. Cyflwyniad

Fel corff rhestredig o dan Atodlen 19 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae gan Amgueddfa Cymru ddyletswyddau statudol o dan y ddyletswydd gyffredinol ynghyd â dyletswyddau penodol i Gymru. O dan y dyletswyddau sy'n benodol i Gymru, mae'n ofynnol i ni gyhoeddi adroddiad blynyddol ar gydraddoldeb.

**Ein Dyletswyddau Cyfreithiol**

O dan ddyletswydd gyffredinol cydraddoldeb y sector cyhoeddus, rhaid i awdurdodau cyhoeddus wneud y canlynol:

- Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
- Trin pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a'r rheini nad ydynt yn eu rhannu, yn gyfartal; ac
- Annog perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a'r rhai nad ydynt yn eu rhannu.

**Mae'r ddeddf yn amddiffyn pobl sydd â nodweddion gwarchodedig:**

Sef:

- Anabledd
- Hil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Rhywioldeb
- Ailbennu rhywedd
- Oedran
- Rhyw
- Crefydd a chred
- Priodas a phartneriaeth sifil

## 2. Cefndir a Chyd-destun

Rydym yn credu bod Amgueddfa Cymru yn perthyn i bawb, ac mae'r adroddiad canlynol yn rhoi trosolwg o'r cynnydd rydym wedi'i wneud o ran cyflawni'r canlyniadau sydd wedi'u nodi yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2022-2025, i hyrwyddo cydraddoldeb ymhellach, fel cyflogwr ac yn ein gwaith gyda chymunedau amrywiol.

Rydym yn cydnabod bod gennym lawer o waith i'w wneud yn y maes hwn a'n bod eisiau gwneud mwy na dim ond cyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol fel corff cyhoeddus, felly mae ein cynllun yn uchelgeisiol. Bydd yn ein harwain i ddod yn sefydliad sy'n gwrando'n wirioneddol ar yr holl gymunedau rydym yn eu gwasanaethu ac yn dysgu ganddynt, gan gynnwys y rheini sydd â nodweddion

gwarchodedig a'r rheini sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol. Maent hefyd yn adlewyrchu ein hymrwymiad i hawliau'r Gymraeg sy'n cael eu gwarchod gan Safonau'r Gymraeg, fel y nodir gan Lywodraeth Cymru o dan Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Mae ein hymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael ei atgyfnerthu mewn strategaethau a chynlluniau gweithredu allweddol eraill y sefydliad. Mae'r rhain i gyd yn ganlyniad gwaith ymgynghori helaeth â chymunedau amrywiol ac maent yn amlinellu sut byddwn yn ymgysylltu â chymunedau ac yn eu cefnogi i greu Cymru well, gan gydnabod bod gan bawb rywbeth i'w gyfrannu drwy ein hamgueddfeydd, ein rhaglenni, ein casgliadau a'n gwaith.

I ddysgu mwy am ein gwaith, darllenwch am ein Strategaeth 2030 a'n Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad a ddatblygwyd yn ystod y cyfnod hwn Strategaeth 2030 (amgueddfa.cymru) Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad 2022-25 (amgueddfa.cymru) Datblygwyd y Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad ar y cyd â Chyngor Celfyddydau Cymru.

Mae'r cyd-destun polisi ehangach yng Nghymru hefyd wedi ein helpu ni i ddatblygu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, gan gynnwys Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol Cymru a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Rydym hefyd wedi ymrwymo i gefnogi Rhaglen Lywodraethu 2021-2026 Llywodraeth Cymru (https://llyw.cymru/rhaglen-lywodraethu) a blaenoriaethau'r Cytundeb Cydweithio rhwng y Llywodraeth a Phlaid Cymru (https://llyw.cymru/y-cytundeb-cydweithio-2021).

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol hefyd wedi cael ei adolygu'n ddiweddar i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru a Chynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru.

## 3. Edrych yn ôl ar 2022-2023

Yn yr adran ganlynol rydym yn edrych yn ôl ar y gwaith a wnaed yn Amgueddfa Cymru i gyflawni'r saith canlyniad sydd wedi'u nodi yn ein cynllun.

Wrth wneud yr holl bethau hyn, byddwn yn cryfhau'r ffordd rydym yn gweithio, ac yn dangos ein hymrwymiad i'r bobl rydym yn eu gwasanaethu.

**Amcan 1:**

**Byddwn yn recriwtio ac yn cadw staff a gwirfoddolwyr sy'n cynrychioli poblogaeth Cymru.**

- Fe wnaethom gynhyrchu fideo recriwtio yn ein hyrwyddo fel cyflogwr o ddewis a sefydliad cynhwysol. Rydym wedi defnyddio'r fideo yn ein hymgyrchoedd recriwtio a'n deunyddiau. Byddwn yn defnyddio tôn y fideo fel sail i adolygu ein deunyddiau recriwtio yn 2023/24.

- Rydym yn canfod cyfleoedd yn barhaus i greu lleoliadau/interniaethau â thâl ac rydym wedi datblygu cynllun Cynhyrchwyr Amgueddfa Cymru i roi cyfleoedd i bobl ifanc rhwng 18 a 24 oed o gefndiroedd amrywiol.

- Mae ein porth recriwtio ar-lein *i-recruit* bron â gorffen cael ei ddatblygu a bydd yn sicrhau gwell profiad i ymgeiswyr pan gaiff ei lansio ddiwedd 2023. Bydd yn cynnig proses recriwtio'n ddienw fel mater o drefn ar gyfer pob rôl, proses ymgeisio hyblyg, gyda'r gallu i dynnu adrannau sy'n ymwneud ag addysg/cymwysterau a theilwra sut gall ymgeiswyr ddangos tystiolaeth o'u haddasrwydd ar gyfer rôl. Bydd ein proses Monitro Cydraddoldeb yn gwella gan y bydd gofyn i bob ymgeisydd lenwi'r ffurflen ar-lein wrth wneud cais am rôl.

- Cafodd 77 o weithwyr newydd eu recriwtio yn 2022-2023, ac roedd 47 yn fenywod, 29 yn ddynion ac 1 yn anneuaidd.

- Yn ystod Ch1 - Ch4 gwelsom gynnydd o 6% yn nifer yr ymgeiswyr a oedd yn dweud eu bod yn anabl, gyda nifer yr ymgeiswyr a oedd yn ticio'r blwch 'gwarantu cyfweliad' yn y ffurflen gydraddoldeb yn codi 7% yn yr un cyfnod.

- Yn 2022-2023 roeddem wedi cefnogi 604 o wirfoddolwyr a roddodd 26,273 o oriau i Amgueddfa Cymru. Eleni, rydym wedi bod yn canolbwyntio ar ailadeiladu'r Rhaglen Gwirfoddoli a Lleoliadau yn dilyn effaith Covid-19. Roeddem wedi llwyddo i ailddechrau rhai cyfleoedd gwirfoddoli yn 2021/22 ac rydym wedi datblygu'r rhain ymhellach yn 2022/23. Er ein bod wedi adennill nifer yr oriau gwirfoddoli i lefelau cyn y pandemig, rydym yn dal i gynyddu nifer y gwirfoddolwyr. Derbyniom 160 o ffurflenni cofrestru gan ddarpar wirfoddolwyr newydd. Roedd 50 o'r rhain yn llwyddiannus a daethant yn wirfoddolwyr gweithredol (cyfradd gyfnewid o 31%). O blith y 160:

    - roedd 58% wedi nodi eu bod yn fenywod
    - roedd 42% wedi nodi eu bod o dan 25 oed (cyfran uwch nag unrhyw grŵp oedran arall)
    - roedd 17% wedi nodi eu bod yn perthyn i'r grŵp Mwyafrif Byd-eang (uwch nag unrhyw flwyddyn arall)
    - roedd 19% wedi nodi eu bod yn LHDTC+
    - roedd 18% yn ystyried eu hunain yn anabl
    - dywedodd 49% eu bod yn gallu siarad rhywfaint o Gymraeg.

  Mae Strategaeth Amgueddfa Cymru 2030 yn cynnwys Gwirfoddoli fel elfen graidd, gyda chamau gweithredu wedi'u nodi yn y Strategaeth Rhaglenni Cyhoeddus, 2022-27. Mae gan Amgueddfa Cymru statws Buddsoddwyr mewn Gwirfoddolwyr o hyd, a ddyfarnwyd ym mis Ionawr 2022, heb unrhyw argymhellion ar gyfer gwella.

- Mae dwy Raglen Lleoliadau yn Amgueddfa Cymru: Lleoliadau Gwaith Myfyrwyr a Lleoliadau Datblygu Sgiliau.

  Mae Lleoliadau Gwaith Myfyrwyr ar gyfer myfyrwyr mewn coleg neu brifysgol ac maent yn rhan o gwrs neu hyfforddiant. Mae Lleoliadau Datblygu Sgiliau ar gyfer pobl sy'n cael eu rhwystro rhag cael gwaith, er enghraifft oherwydd Awtistiaeth. Rydym wedi cefnogi 82 o leoliadau eleni, a derbyniwyd 112 o ffurflenni cofrestru. Mae 68 o'r rhain yn

fyfyrwyr ac mae 14 yn Lleoliadau Datblygu Sgiliau; mae 74% o'r rhai sydd ar leoliad yn newydd.

- Mae 79% o'r rhai sydd ar Leoliadau Gwaith Myfyrwyr yn nodi eu bod yn fenywod ac mae 71% o'r rhai sydd ar Leoliadau Datblygu Sgiliau yn nodi eu bod yn ddynion.
- Mae 65% o'r rhai sydd ar Leoliadau Gwaith Myfyrwyr rhwng 18 a 24 oed tra bod 50% o'r rhai sydd ar Leoliadau Datblygu Sgiliau rhwng 25 a 34 oed.
- Mae 17% o'r rhai sydd ar Leoliadau Gwaith Myfyrwyr a 7% o'r rhai sydd ar Leoliadau Datblygu Sgiliau yn nodi eu bod yn y grŵp Mwyafrif Byd-eang.
- Mae 37% o'r rhai sydd ar Leoliadau Gwaith Myfyrwyr a 21% o'r rhai sydd ar Leoliadau Datblygu Sgiliau yn nodi eu bod yn LHDTC+.
- Nododd 10% o'r rhai sydd ar Leoliadau Gwaith Myfyrwyr a 57% o'r rhai sydd ar Leoliadau Datblygu Sgiliau fod ganddynt anabledd (mae'r rhaglen wedi'i hanelu'n benodol at bobl sydd â rhwystr i gyflogaeth).

<u>Amcan 2:</u>

**Cefnogi ein holl staff a gwirfoddolwyr i gyflawni eu potensial a'u huchelgais proffesiynol a chael gwared â'r rhwystrau sy'n eu hatal rhag cyflawni hyn.**

- **Hyfforddiant Gwrth-hiliaeth**
  Penodwyd Race Council Cymru i ddatblygu a chyflwyno hyfforddiant gwrth-hiliaeth ar gyfer y Bwrdd a'r Cyfarwyddwyr a sesiwn beilot ar gyfer staff. Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud yn 2023/24.

- **Iaith Arwyddion Prydain**
  Yn ystod y cyfnod hwn, cafodd dros 20 o'n staff o bob rhan o'n hamgueddfeydd hyfforddiant Iaith Arwyddion Prydain.

- **Data Monitro Cydraddoldeb**
  Buom yn gweithio gyda Diverse Cymru i ddiweddaru ein ffurflen monitro cydraddoldeb, gyda'r bwriad o lansio ymgyrch yn 2023/4 i annog ein gweithwyr i ddatgelu eu data. Rydym yn cydnabod y bydd gwella datgeliadau staff yn ein helpu i fesur effaith polisïau ac arferion ar wahanol grwpiau yn y sefydliad yn fwy effeithiol a bydd yn darparu mwy o wybodaeth fanwl i'n helpu i ddeall anghydraddoldeb neu driniaeth annheg, profiadau gwahanol, a meysydd gweithredu.

- **Ymgysylltu ag Ieuenctid**
  Bydd cyllid gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ar gyfer ein cynllun ymgysylltu â phobl ifanc, *Dwylo ar Dreftadaeth*, yn dod i ben ym mis Mawrth 2023. Gyda chefnogaeth Sefydliad Paul Hamlyn, rydym yn parhau i gyflawni'r gwaith hwn. Cafodd dau Hwylusydd Ymgysylltu Ieuenctid eu gwneud yn barhaol, a phenodwyd un o Gynhyrchwyr Amgueddfa Cymru (sef rhwydwaith o 162 o bobl ifanc creadigol 16-24 oed) yn Gydlynydd Ymgysylltu ag Ieuenctid. Rydym

hefyd wedi buddsoddi mewn parhau i dalu Cynhyrchwyr Amgueddfa Cymru am eu hamser drwy gyllid craidd. Roeddem wedi penodi saith Gwneuthurwr Rhaglenni o blith Cynhyrchwyr Amgueddfa Cymru ar gyfer y cynllun Haf o Hwyl rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2022. Dyma enghraifft o sut roedd *Dwylo ar Dreftadaeth* wedi eu helpu i ddatblygu eu sgiliau a'u hyder, gan eu grymuso i wneud cais am rolau pellach yn yr Amgueddfa.

**<u>Amcan 3:</u>**

**Sicrhau bod pawb yn cael cyfle cyfartal i gymryd rhan yn ein gwasanaethau a chael gafael arnynt.**

- Mae project partneriaeth The Secret Garden rhwng Innovate Trust ac Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan (a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol) yn cefnogi sesiynau wythnosol ar gyfer pobl ag anableddau dysgu i ymchwilio i hanes bwthyn Ysgubor Fawr a sefydlu gardd fwthyn. Mae dyluniad anffurfiol i'r ardd hon ac mae'n cynnwys cymysgedd o blanhigion addurnol a phlanhigion bwytadwy, gyda chynefinoedd bywyd gwyllt i annog bioamrywiaeth. Mae'r rhai sy'n cymryd rhan yn y project yn ennill sgiliau penodol sy'n ymwneud â garddio ac ymchwil. Maent hefyd yn ennill sgiliau trosglwyddadwy fel y gallu i weithio mewn tîm, dilyn cyfarwyddiadau a datrys problemau. Mae'r rhai sy'n cymryd rhan yn gwella eu lles drwy dreulio amser yn yr awyr agored a chysylltu â'u cyfoedion a'r gymuned ehangach. Maent hefyd yn elwa o allu cael mynediad ystyrlon at yr Amgueddfa a gwirfoddoli yno. Ers mis Hydref 2022, mae 38 o unigolion wedi cyfrannu 704 o oriau gwirfoddoli fel rhan o'r fenter hon.

- Cafodd ein cynnig Iaith Arwyddion Prydain ei ddatblygu a'i ddarparu ar draws yr holl ddigwyddiadau ar-lein, gan gynnwys Sgyrsiau Amgueddfa ac Amgueddfa Dros Nos: Gartref. Datblygwyd cynigion Iaith Arwyddion Prydain gydag ymgynghorwyr cymunedol B/byddar ar gyfer rhaglenni byw gan gynnwys digwyddiadau Sgyrsiau, Hwyrnos a Gwyliau.

**<u>Amcan 4:</u>**

**Sicrhau bod cydraddoldeb yn rhan annatod o'r broses gaffael a'i fod yn cael ei reoli drwy gydol y broses gyflawni.**

- Rydym yn sicrhau bod Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn cael eu cynnwys yn y ffyrdd y caiff gwasanaethau trydydd parti eu caffael lle bo hynny'n briodol a'u bod yn gymesur â'r contract dan sylw drwy sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys fel rhan o'r Holiadur Cyflenwyr ar gyfer pob Tendr sydd dros £25,000. Os ceir unrhyw ddarpar gyflenwyr yn euog o wahaniaethu anghyfreithlon, byddant yn cael eu tynnu'n awtomatig o'r gystadleuaeth gaffael.

- Ar hyn o bryd mae Adolygiad o Hyfforddiant Caffael yn cael ei gynnal a bydd hyfforddiant ar egwyddorion caffael sy'n mynd i'r afael â chydraddoldeb, cynhwysiant, gwrth-hiliaeth, Cymraeg ac ieithoedd eraill yn cael ei gynnwys yn yr Hyfforddiant Caffael newydd pan fydd yn barod i'w gyflwyno.
- Rydym yn cynnwys Gwerth Cymdeithasol yn yr Holiadur i Gyflenwyr ar gyfer pob proses gaffael sydd dros £25,000. Rydym nawr yn edrych ar sut rydym yn nodi ac yn cofnodi'r gwerth cymdeithasol sy'n cael ei greu er mwyn adrodd ar hyn yn flynyddol.
- Mae ein gweithdrefnau caffael yn agored i bawb, gan gynnwys busnesau bach a chanolig, drwy wneud manylebau'n fwy hygyrch.

**Amcan 5:**

**Rydym yn cydnabod ein rôl unigryw o ran cynrychioli a dathlu hanes a chreadigrwydd cymunedau amrywiol Cymru.**

Mae enghreifftiau o fentrau a gyflwynwyd yn 2022/23 yn cynnwys:

- **Tasglu Ehangu Ymgysylltiad:**
  Sefydlwyd y tasglu ar y cyd â Chyngor Celfyddydau Cymru ym mis Hydref 2022, ac mae'n cadw llygad ar y cynnydd yn y Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad | Amgueddfa Cymru. Mae'r aelodau yn cynnwys Cadeirydd Hanes Pobl Ddu Cymru; Cyfarwyddwr Project Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliol (DARPL); Rheolwr Cynghrair Hil Cymru; Prif Weithredwr Panel Cynghori Is-Sahara (SSAP); Pennaeth Gwasanaethau a Phartneriaethau ar gyfer Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru (EYST); dau Gydymaith Celfyddydau a dau o Gynhyrchwyr Amgueddfa Cymru.

- **Dathlu Amrywiaeth Ddiwylliannol:**
  - Cafodd arddangosfa *Ail-fframio Picton* ei datblygu a'i chyflwyno gan Rwydwaith Arwain Ieuenctid SSAP a Chynhyrchwyr Amgueddfa Cymru. Agorodd yr arddangosfa ym mis Awst 2022 ac mae'n ailframio'r naratif trefedigaethol o amgylch portread o Syr Thomas Picton, a oedd yn arfer cael ei alw'n arwr cyhoeddus, ond sydd heddiw yr un mor enwog am drin pobl Ddu gaeth a rhydd yn greulon, ac am ganiatáu artaith yn ystod ei gyfnod fel llywodraethwr Trinidad. Cafodd y portread ei ailddangos gyda dehongliad newydd, wedi'i baratoi gan y bobl ifanc, ar y cyd â'r gwaith celf a gomisiynwyd, sef *Llawn Ysbryd* gan Laku Neg a *Mae'r Briw yn Borth* gan Gesiye. Rhannodd Cynhyrchwyr Amgueddfa Cymru eu gwaith mewn gweithdy yng Nghynhadledd Cymdeithas yr Amgueddfeydd yng Nghaeredin (Tachwedd 2022). O ddyddiad agor yr arddangosfa ym mis Awst 2022 hyd at ddiwedd mis Mawrth 2023, cawsom 59,568 o ymwelwyr.

- Roedd arddangosfa *Lleisiau'r Wal Goch* yn cyd-daro â Chwpan y Byd FIFA 2022 ac yn edrych ar ddiwylliant amrywiol cefnogwyr pêl-droed Cymru. Roedd y cymunedau a gafodd eu cynrychioli yn yr arddangosfa yn cynnwys Amar Cymru, Wal Goch y Menywod a Wal yr Enfys.

- Cyflwynwyd amrywiaeth o ddigwyddiadau dan arweiniad cymunedol, gan gynnwys Diwrnod Treftadaeth Somali. Mae'r digwyddiad blynyddol hwn yn cyflwyno persbectif sy'n pontio cenedlaethau a safbwyntiau ar dreftadaeth, hunaniaeth a diwylliant yng Nghymru a Somaliland. Mae'r digwyddiadau hyn hefyd yn arwain at ganolbwyntio ar ddatblygu casgliad treftadaeth y gymuned Somali gydag aelodau'r gymuned. Cyflwynwyd Diwali Mela yn Sain Ffagan mewn partneriaeth â Chymdeithas Ddiwylliannol Hindŵaidd Cymru ym mis Tachwedd 2022. Cynhaliwyd digwyddiad Dathlu Mis Hanes Pobl Ddu yn Sain Ffagan mewn partneriaeth â Race Council Cymru a lansiwyd digwyddiad Nowruz yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd mewn partneriaeth â Chymdeithas Gwrdaidd Cymru Gyfan yn Sain Ffagan.

- **Dad-drefedigaethu ein casgliadau:**
  - Roedd y gwaith ar ddad-drefedigaethu'r casgliad yn canolbwyntio ar gyflawni elfen Naratif Hanesyddol Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ac elfen Ymchwil Gweithredu Cymunedol y Siarter Dad-drefedigaethu. Roedd y gwaith ymchwil yn canolbwyntio ar ddatblygu safbwyntiau newydd a dealltwriaeth well o amrywiaeth o wrthrychau mewn gweithdai yn amgueddfeydd Amgueddfa Cymru a Tŷ Pawb, Wrecsam. Bydd y gwaith ymchwil hwn yn cyfrannu at ddatblygu arddangosfeydd yn 2023-25. Mae'r gwaith yn 2022/23 yn cynnwys:
  - Roedd grŵp a oedd yn gysylltiedig â Hyb Amlddiwylliannol Tŷ Pawb – Comunidade de Lingua Portuguesa Wrecsam, yn dadgodio symbolau Ymerodraeth ar gwilt Teiliwr Wrecsam.

  - Cynhaliwyd amrywiaeth o weithgareddau yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd: bu cynrychiolydd o Race Council Cymru a Chynhyrchwyr Amgueddfa Cymru yn ymchwilio i Archif Augustus John i ganfod enw'r model yn *Portread o Fenyw o Jamaica*; cynhyrchwyd ffilm i gofnodi taith rhaff, a wnaed yng Ngharchar Barberton, De Affrica, i gasgliad botaneg yr Amgueddfa, gan un o Gynhyrchwyr Amgueddfa Cymru. Roedd aelodau o KIRAN Cymru wedi dewis gwrthrychau natur byd-eang, a oedd yn cael eu harddangos yn yr orielau hanes naturiol, i'w hadolygu a'u dethol ar gyfer ymchwil ac ail-ddehongli yn y dyfodol. Hefyd, bu Pwyllgor Puja Cymru, KIRAN Cymru ac aelodau o EYST yn ymchwilio i soffa a gomisiynwyd gan Robert Clive, Barwn 1af Clive 1725-1774 (a oedd hefyd yn cael ei alw'n Clive o India).
  - Yn Amgueddfa Lechi Cymru, cynhaliwyd gweithdy gydag aelodau o'r gymuned Ddu yng ngogledd Cymru – ym Mangor, ac yn wreiddiol o Cameroon a Nigeria. Dyma nhw'n nodi naratifau y gellid

eu hadrodd yn yr Amgueddfa ac ymateb i'r safle a'r arddangosfeydd.
  - Aeth Dr Chris Evans a Natalie Jones – awdur ac ymgynghorydd – ati i archwilio Amgueddfa Wlân Cymru ac edrych ar ble a sut gellid adrodd naratif y 'Welsh Plains'.

- **Casglu ac amlygu hanesion pobl Ddu**
  Rydym wedi parhau i weithio gydag unigolion a phartneriaid cymunedol i ddatblygu ac ehangu cynrychiolaeth hanesion pobl Ddu yn y casgliad. Roedd y canlyniadau'n cynnwys:

  - Gwaith casglu yn cynnwys cofnodi hanesion llafar ymgyrchwyr a'u profiad o'r mudiad BLM yng Nghymru, gan gyfweld aelodau'r gymuned cyn dymchwel caffi'r Paddle Steamer yn Butetown.

  - Cynhyrchwyr Amgueddfa Cymru ethnig amrywiol yn dysgu am y broses o gaffael gwaith celf, o dan arweiniad curadur celf. Dyma nhw'n dysgu yn benodol am waith gan Chris Ofili o'r enw *Gogledd Cymru* a gweithio tuag at ailarddangosiad rhannol o arddangosfa sy'n bodoli eisoes. Agorodd yr ailarddangosiad ym mis Mawrth 2022, ac roedd y gwaith gwerthuso'n dangos lefel uchel o foddhad ymysg y bobl ifanc.

  - Cyflwyno Ffoaduriaid Cymru: Bywyd wedi Trais, sef project ymchwil wedi'i ariannu gan AHRC mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd. Cafodd y digwyddiad i ddathlu cwblhau'r gwaith ei gynhyrchu ar y cyd â ffoaduriaid a cheiswyr lloches sy'n byw yng Nghaerdydd ac Aberystwyth.

  - Plac Porffor Patti Flynn – cafodd gwisg, o gasgliad o ddillad yr oedd y gantores jazz a'r ymgyrchydd Patti Flynn wedi'u gwisgo, ei harddangos mewn seremoni ddadorchuddio plac yng Nghanolfan Mileniwm Cymru.

- **Dathlu, Casglu ac amlygu hanesion LHDTC+**
  Mae'r arddangosfeydd a gyflwynwyd yn 2022/23 yn cynnwys:

  - *Cymru yn Cofio Terrence Higgins* yn Sain Ffagan yn nodi 40 mlynedd ers ei farwolaeth ac yn tynnu sylw at bortread newydd o Terrence Higgins gan yr artist Nathan Wyburn. Mae plac gwreiddiol o'r goeden goffa sy'n coffáu'r bobl sydd wedi marw o AIDS yng Nghymru yn cael ei arddangos ochr yn ochr â'r portread.
  - *Trawsnewid* yn archwilio ac yn dathlu hanes nodweddion cwiar a newid cymdeithasol yng Nghymru. Daeth y gwrthrychau yn yr arddangosfa o gasgliad LHDTC+ Amgueddfa Cymru, ac aeth Cynhyrchwyr Amgueddfa Cymru ati i'w casglu mewn naratif newydd sbon ochr yn ochr â gweithiau celf Cymraeg cwiar newydd.

- Roedd arddangosfa yn NWMS yn dathlu casgliad newydd o archif Reg a George. Mae eu stori yn ymddangos yn y llyfr *On the Red Hill* gan Mike Parker

- Casglwyd gwrthrychau o'r digwyddiadau Pride cyntaf ym Mhowys, y Gelli a Chasnewydd, a chafwyd presenoldeb mewn digwyddiadau Pride ledled Cymru i hyrwyddo'r casgliad LHDTC+.

- Cyflwynwyd amrywiaeth o sgyrsiau i grwpiau cymunedol, ac mewn cynadleddau cenedlaethol a rhyngwladol. Roedd yr uchafbwyntiau'n cynnwys sgwrs ar gasglu hanes LHDTC+ yn Amgueddfa Cymru fel rhan o OUTing the Past, Dulyn, Iwerddon a chyflwyniad yn Symposiwm Rhwydwaith Treftadaeth a Chasgliadau Cwiar (QHCN) Llundain, 20-21 Mawrth 2023 yn amlinellu sut roedd y casgliad LHDTC+ yn cael ei ddatblygu a'i ddefnyddio, diolch i gyllid diweddar i gefnogi'r gwaith gan QHCN.

- Fel rhan o Fis Hanes Pobl LHDTC+, lansiodd Llywodraeth Cymru Gynllun Gweithredu LHDTC+ i Gymru yn Sain Ffagan. Hwylusodd Amgueddfa Cymru y digwyddiad Hwyrnos: Cwiar cyntaf yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, a'r daith Cwiar gyntaf yn Sain Ffagan a gyflwynwyd gan Gynhyrchwyr Amgueddfa Cymru.

- **Rhaglenni Dysgu ac Adnoddau**
  - Cynhaliwyd adolygiad o raglen weithdai'r Amgueddfa a'r adnoddau dysgu digidol ar gyfer ysgolion yn 2022/23 i nodi'r newidiadau sydd eu hangen i sicrhau cynrychiolaeth ddiwylliannol a gwrth-hiliaeth i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm newydd i Gymru. Mewn cydweithrediad â Race Council Cymru a Darpl (Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliol), mae adnoddau newydd ar y gweill i ddathlu 'Windrush Cymru'.

  - Datblygwyd a chyflwynwyd gweithdai newydd ar gyfer ysgolion uwchradd fel rhan o arddangosfa *Ail-fframio Picton* yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.

  - Cafodd adnoddau ESOL (Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill) eu creu ar gyfer NSM, NRLM a NWMS, ewch i Dysgu Saesneg (ESOL) | Amgueddfa Cymru. Cafodd yr adnoddau hyn eu dylunio'n arbennig ar gyfer dysgwyr ESOL, a'u creu gan diwtoriaid ESOL a myfyrwyr mewn partneriaeth ag Addysg Oedolion Cymru. Mae'r rhain yn ychwanegol at yr adnoddau sydd eisoes wedi'u creu ar gyfer Sain Ffagan. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae grwpiau fel y grŵp o fenywod o Affganistan a ymwelodd â Sain Ffagan fel rhan o broject Camau at Lwyddo i Integreiddio AMIF (a ariennir yn rhannol gan Gronfa Lloches, Ymfudo ac Integreiddio'r UE) wedi bod yn defnyddio'r adnoddau.

**Amcan 6:**

**Sicrhau bod arweinyddiaeth strategol yn atebol a bod trefniadau llywodraethu ar waith, gan sicrhau bod safonau'n uchel ac yn gyson ar draws pob maes cyfrifoldeb.**

- Rydym wedi parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru ar gynyddu cynrychiolaeth ar lefel Bwrdd.

- Mae ein hymrwymiadau i Gydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg yn ganolog i'n gwaith ac mae grŵp monitro mewnol newydd yn dod â'r gwaith hwn at ei gilydd. Mae'r grŵp yn monitro a yw Amgueddfa Cymru yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a Chydraddoldeb. Rôl y pwyllgor yw cefnogi a bwrw ymlaen â'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad (egwyddorion arweiniol Cydraddoldeb a'r Gymraeg), Cynllun Cydraddoldeb Strategol a Chynllun Iaith Gymraeg Amgueddfa Cymru. Bydd y pwyllgor hefyd yn gyfrifol am fonitro ac adolygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol a Chynllun Gweithredu Iaith Gymraeg Amgueddfa Cymru. Mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys ein gwasanaethau i'r cyhoedd a'n cyfrifoldebau i'n gwirfoddolwyr a'n gweithlu.

- Byddwn yn sicrhau bod asesiadau effaith yn cael eu cynnal o ran cydymffurfio â'r Gymraeg a Chydraddoldeb ac Amrywiaeth

- Caiff ein polisïau a'n gweithdrefnau eu hasesu i ganfod unrhyw effaith ar y mwyafrif byd-eang a'r Iaith Gymraeg cyn eu cyhoeddi

- Byddwn yn ymgysylltu ag Undebau Llafur i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth ar bartneriaethau cymdeithasol a gwaith teg.

**Amcan 7:**

**Parhau i leihau'r bwlch cyflog rhwng dynion a menywod.**

- Mae ein hadroddiad diweddaraf ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar gael yma GPG report 2022 V1.0 Cymraeg (amgueddfa.cymru) Mae'n braf gweld bod y gwaith o fynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhwng y rhywiau yn arwain at welliannau cadarnhaol o un flwyddyn i'r llall. Yn 2021/22 gwelsom fwy o fenywod yn cael eu recriwtio yn y trydydd chwartel a'r chwartel uchaf, gan gael dylanwad cadarnhaol ar y data a ddeilliodd o hynny.

  Dyma ffigurau'r Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau yn 2023:

  Canolrif 0%
  Cymedr 1.58%

  Mae hyn yn well na chanolrif 2022, sef 1.77% ac mae'n golygu bod cydraddoldeb cyflog rhwng y gyfradd fesul awr canolrifol ar gyfer

dynion a menywod. Mae'r cymedr yn dangos cynnydd bach o ffigur 2022 o 0.9%.

- Datblygu ein hadroddiadau ar y bwlch cyflog ethnigrwydd.

**Casgliad a chamau nesaf**

Dros y cyfnod hwn, teimlwn ein bod wedi gwneud cynnydd cyson tuag at ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol. Rydym wedi parhau i weithio mewn modd cydweithredol, a'r prawf o hyn yw ein cynnydd wrth ddarparu ein Amcancion Cydraddoldeb Strategol.

Rydym hefyd yn cydnabod na allwn ni laesu dwylo. Mae Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn faes sy'n newid yn barhaus ac mae mwy i'w wneud os ydym am gyrraedd un o amcanion allweddol Strategaeth 2030, bod Amgueddfa Cymru yn 'perthyn i bawb' ac yn 'cynrychioli pawb'. Daeth hyn i'r amlwg yn yr Adolygiad wedi'i Deilwra a lansiwyd gan Lywodraeth Cymru i ymchwilio i Amgueddfa Cymru, ac a gyhoeddwyd yn 2023. Mae'r adroddiad yn pwysleisio'r angen i ni ymgysylltu fwyfwy â chymunedau amrywiol a gwrando arnynt er mwyn canfod datrysiadau. Mae hyn yn angen creiddiol os yw pawb yn ein cymunedau am deimlo bod ganddynt lais a gwir ymdeimlad o 'berthyn' yn Amgueddfa Cymru.